# Y Trydydd Cynulliad – Cyfarfod Llawn

**Pleidleisiau a Thrafodion (201)**

**Dyddiad: Dydd Mercher, 26 Mai 2010**
**Amser: 13.30**

## Eitem 1:Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Ni ofynnwyd cwestiwn 1. Gofynnwyd cwestiynau 2 i 5. Cafodd cwestiynau 2 a 3 eu grwpio i'w gofyn gyda'i gilydd.

**.........................................**

## 13.38
## Point of Order – Mike German

Gofynnodd Mike German am gyngor gan y Llywydd o ran pa dermau y dylai Aelodau eu defnyddio wrth enwi grwpiau gwleidyddol neu weinyddiaethau llywodraethol.

Dyfarnodd y Llywydd y dylai Aelodau gyfeirio at bleidiau gwleidyddol yn ôl eu teitlau cywir, sef yr enwau a ddefnyddir i gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol. O ran gweinyddiaethau llywodraethol, dylai Aelodau ddefnyddio'r teitl a ddewisodd y weinyddiaeth fel ei henw.

**.........................................**

## 13.41
## Eitem 2: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf.

**.........................................**

## 14.25
## Eitem 3: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl. Cafodd cwestiwn 6 ei ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Blant.

**.........................................**

## 15.03
## Cwestiwn Brys

**Alun Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae Gweinidogion Cymru wedi'u cael â Gweinidogion y DU ynghylch gweithredu penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol i wneud cais i gynnal refferendwm o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006? EAQ(3)2924(FM)

**.........................................**

## 15.37
## Eitem 4: Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 23.57 ar Fesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.49, caiff y gwelliannau eu cwblhau yn y drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Mesur arfaethedig. Ar ddiwedd Cyfnod 3, gall yr Aelod sy’n gyfrifol gynnig i’r Mesur arfaethedig gael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 23.58.

**Grwpiwyd y gwelliannau at ddibenion y ddadl ac fe’u trafodwyd yn ôl y grwpiau a ganlyn:**

**1. Annibyniaeth, bod yn agored ac yn gynhwysol**

Gwelliant 17

**2. Anghymhwyso rhag bod yn aelod o’r Bwrdd**

Gwelliannau 10, 1, 2

**3. Penodi aelodau’r Bwrdd**

Gwelliannau 11, 12, 13, 14, 15, 16

**4. Arfer swyddogaethau mewn perthynas â chyflogau**

Gwelliannau 3, 4, 5

**5. Arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ad-dalu costau a ysgwyddwyd wrth gyflogi staff**

Gwelliannau 6, 7

**6. Enw Byr a Chychwyn**

Gwelliannau 8, 9

**Cynhaliwyd y pleidleisiau yn y drefn a nodir yn y Rhestr o Welliannau wedi’u Didoli:**

**Derbyniwyd pob gwelliant, yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Barnwyd bod pob adran ac atodlen o’r Mesur arfaethedig wedi’u derbyn, gan ddwyn trafodion Cyfnod 3 i ben.**

.........................................

**16.05**
**Eitem 5: Cynnig yng Nghyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 23.58 i gymeradwyo Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)**

Cynigiodd yr Aelod sy’n Gyfrifol fod y Mesur arfaethedig yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 23.58.

**Cafodd y Mesur ei basio, yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

Bydd y Mesur, fel y cafodd ei basio, ar gael yn y linc a ganlyn.

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-measures-proposed_remuneration.htm

.........................................

**16.07**
**Eitem 6: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Cymunedau yn Gyntaf**

**NDM4483 Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Cymunedau yn Gyntaf, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Chwefror 2010.

Noder: Gosodwyd ymateb y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ebrill 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

.........................................

**17.09**
**Eitem 7: Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**NDM4484 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddiddymu’r cymhorthdal ar gyfer y cyswllt awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 9 | 28 | 42 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y Cynnig:

Yn gresynu wrth y diffyg tryloywder y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ddangos yng nghyswllt defnyddio arian trethdalwyr ar gyfer y cymhorthdal.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 28 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y Cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatgelu ar unwaith faint o arian cyhoeddus sydd wedi cael ei wario ar y cymhorthdal ar gyfer y cyswllt rhwng y gogledd a'r de.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 28 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gan fod y Cynulliad wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliant i'r cynnig, nid yw'r cynnig wedi ei gymeradwyo.**

**.........................................**

## 18.03
## Cyfnod pleidleisio

**.........................................**

**18.05**
**Eitem 8: Dadl fer**

**NDM4482 David Melding (Canol De Cymru):**

Gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.33

**........................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mawrth, 8 Mehefin 2010**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**